CANLLAWIAU

# Trefniadau adrodd ar berfformiad ysgolion: diweddariad pwysig

Diweddariad ar y newidiadau i drefniadau adrodd ar berfformiad ysgolion yn sgil effaith y coronafeirws ar ysgolion.

Cyhoeddwyd gyntaf:
10 Awst 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
10 Awst 2020

Cynnwys

Beth yw'r prif bwyntiau?

Dolenni perthnasol

Fel nodwyd yn y Datganiadau Ysgrifenedig dyddiedig **18 Mawrth 2020** a **3 Gorffennaf 2020**, mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi newidiadau i drefniadau cyhoeddi data dyfarnu cymwysterau a mesurau perfformiad yn sgil y coronafeirws.

Ar ben hynny, gwnaed **Rheoliadau Llacio Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020** er mwyn lleihau'r baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer 2019/20.

## Beth yw'r prif bwyntiau?

- Rydym wedi gohirio'r gwaith o gyfrifo a chyhoeddi mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a chweched dosbarth ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21.
- Ni fydd data ynghylch dyfarniadau cymwysterau yn cael eu defnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol, ac ni cheir eu defnyddio i ddal ysgolion i gyfrif am ddeilliannau eu dysgwyr.
- Mae mesurau perfformiad ôl-16 hefyd wedi'u gohirio ar gyfer 2019/20. Byddwn yn ystyried y dull gweithredu gorau ar gyfer 2020/21, yng ngoleuni'r ffaith bod amrywiol ddarparwyr a gwahanol fathau o raglenni yn cael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd. Byddwn yn ymgynghori â'r sector cyn dod i benderfyniad pendant, er mwyn ystyried beth fyddai'n ddefnyddiol i'w helpu gyda'u prosesau monitro a sicrwydd ansawdd eu hunain.
- Bydd effaith uniongyrchol ar y datganiadau data arferol sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai datganiadau yn cael eu gohirio am flwyddyn neu ddwy a/neu eto i'w cadarnhau ar gyfer 2020/21. Ceir tabl isod yn dangos pa wybodaeth fydd yn cael ei rhyddhau gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag amserlen fras. Pan fo gweithgareddau wedi'u nodi i barhau ar gyfer adroddiadau 2020/21, dyna'r rhagdybiaeth o'r cynlluniau ar adeg cyhoeddi. Gallai hyn newid pe bai amharu pellach ar weithrediad ysgolion.
- Bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol eu hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrio ar eu trefniadau presennol a'u gwella.
- Daeth Rheoliadau Llacio Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020 i rym ar 7 Awst 2020. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu un cyfres o Reoliadau ac yn diwygio nifer o rai eraill, sy'n gosod dyletswyddau ar benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i gynhyrchu adroddiadau disgyblion ac ysgol:

| Rheoliadau | Disgrifad o'r Rheoliadau | Effaith Diwygio'r Rheoliadau | Manylion pellach |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 | Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion bennu a chyhoeddi targedau y cytunwyd arnynt gan awdurdodau lleol. | Dirymu | Dim angen bellach |
| Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 | Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid sicrhau bod adroddiad ar gyflawniadau addysgol disgyblion ar gael i bob rhiant neu ddisgybl sy'n oedolyn, bob blwyddyn. | Diwygio (i fod ar sail 'ymdrechion rhesymol') | Dylid trin unrhyw ddyletswyddau y mae'r Rheoliadau yn eu gosod ar benaethiaid o ran adroddiadau sy'n ymwneud â blwyddyn ysgol 2019/20 fel rhai wedi'u cyflawni, os yw'r pennaeth wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd.<br><br>Yr eithriad i'r "ymdrechion rhesymol" yw rheoliad 5(1) o'r Rheoliadau Adrodd, sef y gofyniad i ddarparu adroddiad disgybl sy'n ymadael yr ysgol, sy'n parhau'n ddyletswydd absoliwt, fel nad yw'r cohort hwn o ddysgwyr o dan anfantais eleni. |
| Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 | Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi prosbectws ysgolion cyfansawdd ac i ysgolion gyhoeddi eu prosbectws unigol eu hunain, ac mae'n nodi'r wybodaeth sydd angen i'r ysgolion ei chynnwys | Diwygio | Gwneir darpariaeth i beidio â chyhoeddi data ar absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig mewn perthynas â'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/2020 mewn unrhyw brosbectws ysgol. |
| Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 | Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion lunio adroddiad blynyddol, yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yr ysgol yn erbyn targedau a gyhoeddir. | Diwygio | Addasu cynnwys yr adroddiadau a luniwyd mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2019/20 fel nad yw'r wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad gan lywodraethwyr yr ysgol.<br><br>Bydd dyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu i lunio adroddiad yn parhau.<br><br>Gwybodaeth i'w datgymhwyso/ei heithrio mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20:<br><br>*y Crynodeb diweddaraf o Berfformiad Ysgol Uwchradd;<br><br>*nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol; ac<br><br>*unrhyw wybodaeth mewn perthynas â thargedau perfformiad ac absenoldeb, gan gynnwys gwelliannau sydd wedi'u pennu gan y corff llywodraethu mewn perthynas â pherfformiad dysgwyr, neu ar gyfer gostwng lefelau absenoldeb. |
| Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 | Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer adrodd ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac arholiadau (o ysgolion a chyrff llywodraethu i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru). | Diwygio | Dileu'r dyletswyddau ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ddarparu data, y naill i awdurdodau lleol, a'r llall i Weinidogion Cymru, ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac absenoldebau awdurdodedig neu anawdurdodedig ar gyfer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion yn y flwyddyn ysgol 2019/20. |

## Dolenni perthnasol

**Llacio'r gofynion adrodd mewn ysgolion**

**Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

**Cyhoeddwyd gyntaf**
10 Awst 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**
10 Awst 2020